

# Newidiadau i fesurau adrodd ar berfformiad ysgolion ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 2016–2018



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

I gael rhagor o wybodaeth anfonwch e-bost i: [ims@cymru.gsi.gov.uk](mailto:ims@cymru.gsi.gov.uk)

## 2016

- Newid i **gohort yn seiliedig ar Flwyddyn 11** o'r cohort presennol sy'n seiliedig ar ddysgwyr 15 oed.
- Uchafswm o werth sydd gyfwerth â dau TGAU yn gymwys i **unrhyw un** cymhwyster nad yw'n gymhwyster TGAU (h.y. gwerth cyfatebol o 40% ar y mwyaf o fesur trothwy) o ran yr **holl** gyfrifiadau sy'n ymwneud â mesur perfformiad.

## 2017

- Nid yw'r **Dangosydd Pynciau Craidd** yn cael ei adrodd mwyach.
- **Newidiadau i'r Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio:**
  - cynnydd o wyth i naw TGAU neu faint cyfwerth o gymwysterau
  - cyflwyno gofynion cyflawniad pwnc-benodol:
    1. Cymraeg/Saesneg
    2. Mathemateg – rhifedd
    3. Mathemateg
    4. 2 x Gwyddoniaeth.
- **Dim ond y cymwysterau diwygiedig newydd ar gyfer Cymraeg/Saesneg, mathemateg – rhifedd a mathemateg** sy'n cyfrif tuag at y gofynion pwnc-benodol hyn yn y mesurau (nid yw **cymwysterau llenyddiaeth** yn cyfrif mwyach). Gall y naill neu'r llall o'r cymwysterau TGAU newydd mewn mathemateg fodloni gofynion rhifedd Lefel 2 cynhwysol.
- Uchafswm o'r hyn sydd gyfwerth â dau TGAU ar gyfer **cyfanswm** gwerth cyfraniad cymwysterau nad ydynt yn TGAU yn y mesurau trothwy (h.y. gwerth cyfatebol o 40% ar y mwyaf o fesur trothwy). Ni chaiff y terfyn hwn ei ddefnyddio gyda'r Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio.
- Nid oes gwerth i gyfraniad **Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach** mwyach yn rhan o fesurau Cyfnod Allweddol 4 ac maent wedi'u cymeradwyo ar gyfer darpariaeth Ôl-16 yn unig.
- Dyfarnwyd cywerthedd o 0.5 TGAU i gymwysterau o **60 hyd at 119 (yn gynwysedig) o oriau dysgu dan arweiniad.**
- Dyfarnu **cymhwyster ar gyfer Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig** am y tro cyntaf.

## 2018

- **Mesurau Bagloriaeth Cymru** yn disodli'r mesurau trothwy.
- Ar gyfer gwyddoniaeth, dim ond **cymwysterau TGAU** sy'n cyfrif tuag at ofynion pwnc-benodol y Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio; nid yw cymwysterau gwyddoniaeth nad ydynt yn gymwysterau TGAU yn cyfrif mwyach tuag at gydrannau gwyddoniaeth ond gallant gyfrif tuag at 4 cymhwyster gorau arall y dysgwr.

Ni chaiff yr un mesur unigol ei bwysleisio ar lefel yr ysgol. Bydd statws y Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio yn debyg i'r mesurau ar gyfer Lefel 2 cynhwysol a Bagloriaeth Cymru. Dylid defnyddio cyfres o fesurau i ystyried perfformiad ysgolion o onglau gwahanol. Bydd y mesurau i'w defnyddio yn dibynnu ar y cwestiynau penodol a ofynnir.